Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Healthcare Inspectorate Wales

# Adroddiad Arolygu o Bractis Deintyddol Cyffredinol (Lle Rhoddwyd Rhybudd)

## Practis Deintyddol Lakeside, Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 11 Gorffennaf 2022

Dyddiad cyhoeddi: 10 Hydref 2022





Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd eraill ar gais. Bydd oediad byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Pan gânt eu cyhoeddi, bydd copïau o'r holl adroddiadau ar gael ar ein gwefan neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:


Rheolwr Cyfathrebu

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru

Parc Busnes Rhyd-y-car

Merthyr Tudful

CF48 1UZ


Neu drwy


Ffôn: 0300 062 8163

E-bost: agic@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk


ISBN digidol 978-1-80364-945-0

© Hawlfraint y Goron 2022

# Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw'r arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol ar gyfer gofal iechyd yng Nghymru

## Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl

## Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn yr ydym yn ei wneud. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddiduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac rydym yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

## Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

## Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu a defnyddio gwasanaethau a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau



# Cynnwys


1. Yr hyn a wnaethom

2. Crynodeb o'r arolygiad

3. Yr hyn a ganfuom

    - Ansawdd profiad y claf

    - Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

    - Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

4. Y camau nesaf

Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

Atodiad C – Cynllun gwella

# 1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn ar sut rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein gwefan.

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad lle rhoddwyd rhybudd o Bractis Deintyddol Lakeside, Bwrdd Iechyd  Caerdydd a'r Fro ar 11 Gorffennaf 2022.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys arolygydd AGIC ac adolygydd cymheiriaid deintyddol.

Sylwch fod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i llunio ar gyfer aelodau o'r cyhoedd, ar gael ar ein gwefan.

# 2. Crynodeb o'r arolygiad

## Ansawdd profiad y claf

Crynodeb cyffredinol:
Canfuom fod Practis Deintyddol Lakeside yn ymrwymedig i ddarparu profiad cadarnhaol i'w gleifion. Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC fod y gwasanaeth a ddarperir gan y practis deintyddol yn dda iawn neu yn dda.

Gwelsom y staff yn cyfarch y cleifion mewn modd cwrtais a chyfeillgar, wyneb yn wyneb a thros y ffôn.

Canfuom fod systemau a phrosesau ar waith i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin ag urddas a phroffesiynoldeb.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylid diweddaru'r polisi cwynion i gynnwys y ffynonellau cymorth ac eiriolaeth y gellid cysylltu â nhw os na ellir dod i gytundeb. Dylai'r wybodaeth gynnwys manylion cyswllt AGIC.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Canfuom fod y practis yn hybu cyfrinachedd a gwelsom fod sgyrsiau sensitif neu gyfrinachol yn cael eu trin yn briodol ac mewn modd preifat
- Roedd y cleifion yn cael eu trin mewn modd gofalgar a chyfeillgar mewn ystafelloedd triniaeth a oedd yn cynnal eu hurddas.

## Gofal diogel ac effeithiol

Crynodeb cyffredinol:
Ar y cyfan, canfuom fod y practis yn bodloni'r rheoliadau a'r safonau perthnasol sy'n gysylltiedig ag iechyd, diogelwch a lles y staff a'r cleifion.

Roedd yn ymddangos bod y practis wedi'i gynnal a'i gadw'n dda ac yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol i gyflawni'r gwasanaethau a'r triniaethau y mae wedi'i gofrestru i'w cyflawni. Roedd pob ardal yn lân ac yn rhydd rhag unrhyw beryglon gweladwy.

Canfuom fod trefniadau boddhaol ar waith i sicrhau bod offer pelydr-X yn cael ei ddefnyddio'n briodol ac yn ddiogel. Fodd bynnag, rydym wedi argymell bod polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau RhYÏ(CM) yn cael eu diweddaru a bod y staff yn eu darllen a'u llofnodi i gadarnhau eu bod yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Mae angen cofnodi profion larymau tân, ymarferion tân a goleuadau a ddefnyddir mewn argyfwng yn unol â pholisi diogelwch tân y practis
- Mae angen i dystiolaeth fod y practis yn defnyddio mesurydd perfformiad uwchsonig fod ar gael a bod yr wybodaeth yn cael ei chofnodi'n llawn
- Mae angen adolygu'r polisi meddygol brys yn flynyddol
- Mae angen diweddaru’r polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau RhYÏ(CM) a’u rhannu â'r staff fel y gallant eu darllen a’u llofnodi i gadarnhau eu bod yn deall eu rôl a’u cyfrifoldeb
- Cwblhau archwiliad cadw cofnodion.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr ystafelloedd triniaeth yn lân, yn cynnwys yr holl offer angenrheidiol, ac yn addas i'r diben ac roedd y cyfarpar wedi'i gynnal a'i gadw'n dda
- Gwelsom archwiliadau o ansawdd da yn cael eu cwblhau, a oedd yn dangos tystiolaeth o unrhyw newidiadau a wnaed o yn sgil canlyniadau'r archwiliad.

## Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:
Gwelsom grŵp o staff a oedd yn gweithio'n dda gyda'i gilydd ac a oedd yn ymroddedig i ddarparu gofal o safon uchel i'w cleifion.

Gwelsom fod nifer o bolisïau a gweithdrefnau ar waith. Fodd bynnag, rydym wedi gwneud argymhellion i sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru, eu rhannu gyda'r staff er mwyn iddynt eu darllen a’u llofnodi fel y gallant gadarnhau eu bod yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau.

Roedd cyfleoedd hyfforddi priodol ar gael i staff er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau proffesiynol.

Rydym yn argymell y gall y gwasanaeth wella’r canlynol:

- System i ddangos bod y staff wedi darllen a llofnodi'r polisïau a'r gweithdrefnau fel eu bod yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau
- Yn unol â pholisi recriwtio'r practis, sicrhau bod dau eirda wedi’u derbyn ar gyfer dechreuwyr newydd.

Dyma beth oedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Gwelsom y staff yn cydweithio'n dda fel rhan o dîm
- Gwelsom fod rheolwr cofrestredig ymroddedig wedi talu am y cofrestriad gyda'r Cyngor Deintyddol Cyffredinol, indemniad a chyrsiau pellach ar gyfer

nyrsys deintyddol yn y practis er mwyn datblygu eu sgiliau, eu gwybodaeth a'u harbenigedd ymhellach.

Rhoddir manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau uniongyrchol a'r camau unioni sydd eu hangen yn Atodiad B.

# 3. Yr hyn a ganfuom

## Ansawdd profiad y claf

### Adborth cleifion

Cyn ein harolygiad, gwnaethom wahodd y practis i ddosbarthu holiaduron AGIC i'r cleifion er mwyn cael eu barn ar y gwasanaeth a ddarperir yn y practis. Derbyniwyd cyfanswm o 27 o holiaduron wedi'u cwblhau. Roedd mwyafrif yr holiaduron a gwblhawyd gan gleifion a oedd wedi bod yn glaf yn y practis am fwy na dwy flynedd.

Roedd rhai o'r sylwadau a ddarparwyd gan y cleifion ar yr holiaduron yn cynnwys:

> *"Mae'r gofal a'r gwasanaeth yn ardderchog. Maen nhw bob amser yn cymryd amser i esbonio'r driniaeth"*
> *"Practis cyfeillgar a chymwynasgar iawn. Bob amser yn gwneud i mi deimlo'n gyfforddus. Mae'n bleser mynychu fy apwyntiad"*
> *"Dwi wedi bod yn glaf ers blynyddoedd ac wedi cael profiad gwych bob tro, ni fyddwn am fynd i rywle arall"*

Gofynnwyd i'r cleifion yn yr holiaduron sut y gallai'r lleoliad wella'r gwasanaeth y mae'n ei ddarparu. Roedd y sylwadau a dderbyniwyd yn cynnwys:

> *"Byddai agor ar fore Sadwrn yn ddefnyddiol i bobl sy'n gweithio"*
> *"Byddai mwy o deganau i blant yn ddefnyddiol"*
> *"Dwi'n ei chael hi'n anodd cael apwyntiadau, felly sicrhau bod mwy ohonyn nhw ar gael"*

### Cadw'n iach

**Hybu, diogelu a gwella iechyd**
Gwelsom y newidiadau a wnaed o fewn y practis i leihau'r risg o drosglwyddo COVID-19. Roedd y rhain yn cynnwys peiriannau hylif diheintio dwylo a oedd wedi'u gosod mewn lleoliadau strategol ym mhob rhan o'r practis. Gwelsom fod y ffenestri ar agor a bod systemau puro'r aer yn cael eu defnyddio yn yr ystafelloedd triniaeth er mwyn lleihau trosglwyddiadau ymhellach. Roedd y staff yn gwisgo masgiau, a chynghorwyd y cleifion i wneud yr un peth.

Yn ystod eu hamser yn y practis, teimlai pob un o'r cleifion a gwblhaodd yr

holiaduron, ond un, ei bod yn amlwg iawn bod y gweithdrefnau a oedd ar waith yn y practis yn cydymffurfio â mesurau COVID-19.

Gwelsom arwyddion yn y practis gyda'r geiriau 'Dim Ysmygu' arnynt, a oedd yn cadarnhau bod y practis yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth ar fangreoedd di-fwg.

Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur fod y tîm deintyddol wedi siarad â nhw am sut i gadw eu ceg a'u dannedd yn iach.

## Gofal ag urddas

**Cyfathrebu'n effeithiol**
Dywedodd yr holl gleifion a gwblhaodd holiadur AGIC eu bod yn teimlo bod y staff yn y practis yn eu trin ag urddas a pharch. Dywedodd pob un o'r ymatebwyr ond un eu bod o'r farn bod y tîm deintyddol wedi eu helpu i ddeall yr holl opsiynau sydd ar gael ar gyfer triniaeth pan oedd angen cymorth arnynt.

Gwelsom y staff yn siarad â'r cleifion mewn modd urddasol a pharchus. Cadwyd y drysau i'r ystafelloedd triniaeth ar gau yn ystod triniaethau a oedd hefyd yn ei gwneud yn bosib cynnal sgyrsiau preifat gyda'r cleifion.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis un aelod o staff a oedd yn siarad Cymraeg, a gwelwyd poster yn y man aros a oedd yn dangos y gellid darparu gwasanaeth Cymraeg. Cawsom wybod bod gan y practis fynediad at wasanaeth cyfieithu ac y byddent yn ymdrechu i ddarparu gwybodaeth i'r cleifion yn eu dewis iaith a/neu fformat.

**Gwybodaeth i gleifion**
Gwelsom fod gwybodaeth i gleifion ar gael yn yr ardaloedd aros. Roedd yr wybodaeth yn cynnwys sut y gall y cleifion gael copi o'r weithdrefn gwyno, y camau i'w cymryd pe bai tân a sut i hawlio triniaeth GIG am ddim.

Gwelwyd rhestrau prisiau ar gyfer triniaethau preifat a thriniaethau'r GIG. Gwelsom fod y rhain i'w gweld yn glir yn y practis.

Gwelwyd posteri yn atgoffa'r cleifion am symptomau COVID-19 ac am wisgo masgiau wyneb.

Roedd enw'r practis yn weladwy o'r tu allan. Roedd enwau'r deintyddion, yr oriau agor a rhif ffôn hefyd wedi'u harddangos yn glir ar y ffenestr ger y fynedfa.

## Gofal amserol

**Mynediad amserol**
Canfuom fod y practis yn gweithio'n galed i sicrhau bod y cleifion yn cael eu trin mewn modd amserol. Dywedwyd wrthym fod apwyntiadau'n cael eu gwneud dros y ffôn yn bennaf.

O blith y 27 o bobl a ymatebodd i'r holiadur, teimlai 19 ei bod yn 'hawdd iawn' cael apwyntiad pan oedd ei angen arnynt a dywedodd 8 ei bod yn 'eithaf hawdd'.

Dywedwyd wrthym fod staff y dderbynfa yn rhoi gwybod i'r cleifion am unrhyw oedi.

Dywedwyd wrthym fod y practis yn gweithredu opsiwn eistedd ac aros ar gyfer unrhyw glaf y mae angen apwyntiad brys arno, neu byddant yn cael apwyntiad yn ystod y diwrnod nesaf.

O blith y cleifion a gwblhaodd holiadur, dangosodd 24 eu bod yn gwybod sut i gael mynediad at y gwasanaeth deintyddol brys y tu allan i oriau pe bai ei angen arnynt ar gyfer problem ddeintyddol frys.

## Gofal unigol

**Cynllunio gofal i hybu annibyniaeth**
Gwnaethom adolygu cofnodion chwe chlaf a chanfod eu bod yn cynnwys tystiolaeth o gynllunio triniaeth ac opsiynau ar gyfer y cleifion hynny.

Cadarnhaodd 25 o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y deintydd yn holi am eu hanes meddygol cyn ymgymryd ag unrhyw driniaeth.

**Hawliau pobl**
Gwnaethom nodi bod gan y practis bolisïau ar waith sy'n ymwneud â chyfleoedd cyfartal, cydraddoldeb ac amrywiaeth er mwyn sicrhau bod hawliau dynol y cleifion a'r staff yn cael eu cynnal.

Dywedodd bob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur eu bod yn teimlo y gallent gael mynediad at y gofal iechyd cywir ar yr amser cywir.

Gwelsom fod gan y practis ddwy ystafell driniaeth ar y llawr daear, y byddai un ohonynt yn hygyrch i unrhyw un sy'n defnyddio cymorth symudedd.

Gwelsom fod esgynfa yn arwain o'r maes parcio i fynedfa'r practis. Roedd gan y practis esgynfa ychwanegol hefyd er mwyn hwyluso mynediad i'r adeilad.

**Gwrando a dysgu o adborth**

Gwnaethom nodi bod y practis wedi arddangos poster yn nodi y gellid cael gafael ar ei weithdrefn gwyno gan aelod o staff. Gwelsom fanylion cyswllt ar gyfer y GIG a gwybodaeth yn ymwneud â Gweithio i Wella ger desg y dderbynfa a manylion cyswllt AGIC yn yr ystafell aros. Rydym yn awgrymu y dylid lleoli'r wybodaeth hon wrth ymyl ei gilydd. Byddai hyn yn galluogi'r cleifion i gael mynediad at wybodaeth am gwynion mewn un man.

Yn unol â safon 5.3 y Cyngor Deintyddol Cyffredinol, rydym yn argymell bod y polisi cwynion yn cael ei ddiweddaru i gynnwys y ffynonellau cymorth ac eiriolaeth y gellid cysylltu â nhw os na ellir dod i gytundeb. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys cyfeiriad a rhif ffôn AGIC.

Ar adeg ein hymweliad, nid oedd y practis wedi derbyn unrhyw gwynion. Fodd bynnag, gwelsom fod ffeil gwynion bwrpasol ar waith i ddangos y camau gweithredu a'r ymatebion a gymerwyd i ddatrys unrhyw bryderon gan y cleifion.

Gwelsom fod blwch awgrymiadau ar gael yn y man aros fel y gall cleifion roi adborth. Dywedodd y staff wrthym fod unrhyw adborth gan y cleifion yn cael ei adolygu, ac y byddai unrhyw themâu a nodwyd yn cael eu trafod.

# Cyflenwi gofal diogel ac effeithiol

## Gofal diogel

**Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch**
Canfuom fod trefniadau addas ar waith i amddiffyn diogelwch a llesiant y staff a'r ymwelwyr â'r practis.

Roedd yr adeilad yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda y tu mewn a'r tu allan. Ni nodwyd unrhyw faterion ynglŷn â'r gwres, y goleuadau na'r awyru. Roedd yr holl ardaloedd i'w gweld yn lân ac yn rhydd rhag peryglon amlwg. Roedd yr ystafelloedd triniaeth a'r ystafell ddihalogi mewn cyflwr da. Roedd gan bob ystafell yr offer angenrheidiol i gyflawni'r triniaethau a'r gwasanaethau a gynigir gan y practis.

Ni fynegodd y cleifion unrhyw bryderon ynghylch glendid y practis deintyddol, a nododd pob un o'r cleifion a gwblhaodd holiadur fod y practis deintyddol yn 'lân iawn' neu'n 'eithaf glân' yn eu barn nhw.

Gwelsom fod offer diogelwch tân ar gael mewn lleoliadau gwahanol o amgylch y practis, ac roeddent wedi cael eu gwasanaethu yn ystod y 12 mis diwethaf. Roedd asesiad risg tân wedi'i gwblhau yn 2022. Dywedwyd wrthym fod larymau tân a goleuadau argyfwng yn cael eu profi, ond ni chofnodwyd hyn. Roedd y polisi diogelwch tân yn nodi y byddai'r llyfr cofnodion tân yn cael ei gwblhau i ddangos bod gwiriadau wedi'u cynnal, ond dywedwyd wrthym nad oedd llyfr cofnodion ar waith. Felly, rydym yn argymell, yn unol â'r polisi, y dylid dogfennu gwiriadau'r larwm tân, ymarferion tân a phrofion y goleuadau argyfwng. Gwelsom fod arwyddion ar gyfer allanfeydd tân.

Gwelsom dystysgrifau a oedd yn dangos bod y staff wedi cwblhau hyfforddiant diogelwch tân.

Gwelsom fod polisïau a gweithdrefnau ar waith yn ogystal ag asesiad risg amgylcheddol i sicrhau bod y safle'n ddiogel ac yn addas i'r diben. Roedd poster iechyd a diogelwch hefyd wedi'i arddangos.

Fel sy'n ofynnol gan y rheoliadau, gwelsom fod gan y practis bolisi parhad busnes ar waith. Gwelsom hefyd fod yswiriant atebolrwydd cyflogwr ar waith.

**Atal a rheoli heintiau**
Gwelsom fod polisi rheoli heintiau priodol ar waith.

Canfuom fod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin a gwaredu gwastraff. Gwelsom fod gwastraff clinigol yn cael ei storio'n ddiogel ac ar wahân i wastraff nad yw'n beryglus. Roedd contract hefyd ar waith gyda chwmni rheoli gwastraff proffesiynol ar gyfer trosglwyddo a chael gwared ar wastraff peryglus (clinigol) yn ddiogel.

Gwnaethom nodi bod trefniadau priodol ar waith ar gyfer trin sylweddau sy'n destun y Rheoliadau Rheoli Sylweddau Peryglus i Iechyd.

Gwelsom fod yr ystafell ddihalogi ddynodedig yn addas i'r diben. Dywedwyd wrthym hefyd fod gan y staff fynediad at gyfarpar diogelu personol priodol ar gyfer gweithio yn yr ardal hon.

Gwelsom fod y llyfrau cofnodion ar gyfer gwirio'r offer sterileiddio wedi cael eu cwblhau. Fodd bynnag, canfuom nad oedd unrhyw dystiolaeth bod y practis yn defnyddio'r mesurydd perfformiad uwchsonig ac argymhellwyd y dylid gwneud hyn ar unwaith. Dywedwyd wrthym fod archwiliad Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05 i'w gwblhau.

Dywedwyd wrthym fod gan y practis drefniadau priodol ar waith gyda'r gwasanaeth iechyd galwedigaethol lleol i ymdrin ag unrhyw anafiadau a achoswyd gan offer miniog.

**Rheoli meddyginiaethau**

Canfuom fod gan y practis weithdrefnau priodol ar waith i ymdrin ag achosion brys. Gwelsom fod offer dadebru ar gael i'w ddefnyddio a bod cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu storio mewn lleoliad y gallai'r staff eu cyrchu'n hawdd. Roedd polisi brys meddygol ar waith, ac argymhellwyd y dylid ei adolygu'n flynyddol.

Roedd systemau ar waith i nodi tystiolaeth bod gwiriadau ar y cyffuriau a ddefnyddir mewn achos brys yn cael eu cynnal yn unol â chanllawiau cenedlaethol. Gwnaethom nodi bod y cyffuriau a'r offer a ddefnyddir mewn achos brys i gyd o fewn eu dyddiad.

Roedd gan y practis ddau swyddog cymorth cyntaf ac roedd hyfforddiant y ddau ohonynt yn gyfredol. Roedd pecyn cymorth cyntaf ar gael, ac roedd popeth ynddo o fewn ei ddyddiad ac yn cael ei wirio'n rheolaidd.

Gwelsom fod padiau presgripsiwn yn cael eu cadw'n ddiogel.

Dywedodd y staff wrthym am y gweithdrefnau cywir y byddent yn eu dilyn pe bai argyfwng neu pe bai'n rhaid iddynt adrodd am ddigwyddiad amhriodol sy'n ymwneud â chyffuriau.

**Diogelu plant a diogelu oedolion mewn perygl**

Gwelsom fod yr holl staff wedi cwblhau hyfforddiant mewn diogelu oedolion a phlant, a bod yr arweinydd diogelu wedi cwblhau Lefel 3.

Gwelsom fod dau bolisi diogelu ar waith ac rydym yn argymell bod y polisi mwy cynhwysfawr yn cael ei ddefnyddio i sicrhau bod y ddogfen fwyaf cyfredol ar gael i staff. Roedd y polisi'n cynnwys manylion y tîm diogelu lleol ac roedd siartiau llif wedi'u lleoli ar gefn drysau'r ystafelloedd triniaeth fel y gellid cyfeirio'n gyflym at y camau y gallai fod angen i'r staff eu cymryd. Roedd gan y practis arweinydd diogelu enwebedig, ond nid oedd rhai aelodau o'r staff yn gwybod pwy oedd hwn.

Gwelsom fod gwiriad gan y Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd yn ffeiliau pob aelod o staff, a oedd wedi'u cynnal cyn eu cyflogaeth. Dywedwyd wrthym fod y rhain yn cael eu hadnewyddu bob pum mlynedd.

**Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol**
Gwelsom fod yr ystafelloedd triniaeth yn cynnwys offer priodol ar gyfer sicrhau diogelwch y cleifion a'r tîm deintyddol. Dywedwyd wrthym fod y staff wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddefnyddio'r offer.

Gwnaethom adolygu'r trefniadau sydd ar waith i sicrhau bod cyfarpar radiograffig yn cael ei ddefnyddio'n ddiogel. Canfuom fod hyn yn cydymffurfio ar y cyfan, a bod dogfennau perthnasol ar waith. Fodd bynnag, canfuom fod angen diweddaru polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau, a dylai'r staff ddarllen a llofnodi'r rhain i gadarnhau eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth.

Gwelsom fod yr holl staff clinigol wedi cael hyfforddiant ar Reoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 a oedd wedi'i gwblhau o fewn y pum mlynedd diwethaf. Gwelsom hefyd dystiolaeth o archwiliad radiograffeg wedi'i gwblhau a oedd yn dangos cydymffurfedd bellach â Rheoliadau Ymbelydredd Ïoneiddio (Cysylltiad Meddygol) 2017 a gofynion monitro sicrwydd ansawdd.

## Gofal effeithiol

**Gofal diogel ac sy'n effeithiol yn glinigol**
Gwelsom fod gan y practis drefniadau ar waith ar gyfer derbyn, asesu, gwneud diagnosis ar gyfer y cleifion a'u trin.

Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ceisio arweiniad proffesiynol a'u bod yn ei ddefnyddio i ddiweddaru eu polisïau eu hunain pan oedd yn berthnasol.

**Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi**
Roedd gan y practis bolisi sicrhau ansawdd ar waith a dywedwyd wrthym fod y practis yn ymdrechu'n barhaus i wella'r gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion.

Gwelsom fod y practis wedi cwblhau nifer o archwiliadau a oedd yn cynnwys yr archwiliad matrics aeddfedrwydd yn 2019, offeryn hunanwerthuso optimeiddio sgiliau yn 2022, lefel efydd mewn gwella ansawdd gyda'n gilydd a'r Cynllun Gwên.

Dywedwyd wrthym fod y practis wedi gwneud cais am ei ail archwiliad gwrthficrobaidd a Memorandwm Technegol Iechyd Cymru 01-05.

Gwnaethom nodi nad oedd unrhyw archwiliad cadw cofnodion yn cael ei gynnal, ac rydym yn argymell y dylid ychwanegu hwn at y rhaglen archwilio.

Dywedwyd wrthym nad yw'r practis yn gwneud unrhyw waith ymchwil.

Mae Rheoliad 23 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 yn ei gwneud yn ofynnol i'r darparwr cofrestredig ymweld â'r practis a llunio adroddiad ysgrifenedig ar weithrediad y practis. Gwelsom fod hyn wedi'i gwblhau, ond dylid cyflwyno'r adroddiad a luniwyd i AGIC.

**Llywodraethu gwybodaeth a thechnolegau cyfathrebu**
Canfuom fod gan y practis bolisi cyfrinachedd staff ar waith a'i fod yn cydymffurfio â'r Rheoliad Cyffredinol ar Ddiogelu Data.

Roedd cofnodion deintyddol y cleifion yn cael eu storio'n electronig ac yn ddiogel ac yn unol â pholisi rheoli cofnodion priodol.

**Cadw cofnodion**
Gwnaethom adolygu chwe set o gofnodion cleifion. Daeth hyn i'r casgliad fod cofnodion yn cael eu cadw i safon dda iawn. Roedd y nodiadau'n glir ac yn cynnwys digon o wybodaeth.

Roedd cydsyniad gwybodus wedi'i gofnodi yn y cofnodion y gwnaethom eu hadolygu, a nodwyd opsiynau triniaeth. Gwelsom fod hanes deintyddol, y rheswm dros fynychu apwyntiad, a gwybodaeth adalw wedi'u nodi hefyd.

Gwelsom nad oedd y dewis iaith wedi'i chofnodi yn y cofnodion a adolygwyd.

# Ansawdd rheolaeth ac arweinyddiaeth

## Llywodraethu, arweinyddiaeth ac atebolrwydd

Y prif ddeintydd (perchennog y practis) sy’n bennaf gyfrifol am y gwaith o reoli'r practis a hi yw'r rheolwr cofrestredig. Caiff ei chefnogi gan dri deintydd, pedwar hylenydd, un derbynnydd a phum nyrs ddeintyddol (y mae tri ohonynt dan hyfforddiant). Gwelsom fod gofal deintyddol preifat yn cael ei ddarparu yn unol â'u hamodau cofrestru.

Gwelsom y tîm staff yn gweithio’n dda gyda’i gilydd ac roedd hyn yn amlwg o’u perthynas a’r ffordd roeddent yn rhyngweithio â’i gilydd a’u cleifion ar ddiwrnod yr arolygiad.

Gwnaethom adolygu’r datganiad o ddiben a’r daflen wybodaeth i gleifion, yr oedd y ddau ohonynt yn cynnwys yr holl feysydd sy'n ofynnol gan Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017. Mae'r ddwy ddogfen ar gael ar wefan y practis.

Gwelsom fod gan y practis ystod o bolisïau a gweithdrefnau ar waith. Gwnaethom argymell bod system yn cael ei rhoi ar waith i ddangos bod y staff wedi'u darllen i gadarnhau eu bod yn deall eu cyfrifoldebau.

Mae rheolwr y practis yn sicrhau bod unrhyw hysbysiadau, gan gynnwys unrhyw hysbysiadau i AGIC, yn cael eu cyflwyno yn achos unrhyw anafiadau difrifol.

Dywedwyd wrthym fod cyfarfodydd tîm yn cael eu cynnal, a chawsom un nodyn o gyfarfod blaenorol. Ar adeg yr ymweliad, nid oedd cofnodion y cyfarfod tîm ar gael.

## Gweithlu

Dywedwyd wrthym am y broses a ddefnyddir i recriwtio staff newydd a bod polisïau ar waith i gefnogi'r gwaith o gyflogi a sefydlu staff.

Gwnaethom adolygu ffeiliau staff a chanfod eu bod yn cynnwys contractau cyflogaeth (cedwir contractau wedi'u llofnodi oddi ar y safle), disgrifiad swydd a thystiolaeth o imiwnedd Hepatitis B. Roedd gan rai ffeiliau un geirda. Yn unol â'r polisi recriwtio, dylid ceisio dau eirda.

Dywedwyd wrthym y cynhelir arfarniadau blynyddol ar gyfer y staff a gwelsom dystiolaeth o'r rhain yn rhai o ffeiliau'r staff.

Gwelsom fod gan y practis bolisi chwythu'r chwiban a dywedodd y staff wrthym eu bod yn hyderus i godi unrhyw faterion neu bryderon ynghylch darparu gofal i’r cleifion, naill ai'n uniongyrchol ag aelod o staff neu â chorff priodol arall os oedd angen.

Gwelsom dystiolaeth fod tystysgrifau hyfforddiant yn cael eu cadw ar gyfer pob aelod o staff a bod y staff wedi mynychu hyfforddiant ar ystod o bynciau a oedd yn berthnasol i'w rolau i fodloni eu gofynion datblygiad proffesiynol parhaus. Gwnaethom argymell bod y practis yn ystyried cadw matrics hyfforddi ar gyfer yr holl staff. Byddai hyn yn helpu i roi trosolwg uniongyrchol o'r hyfforddiant a gwblhawyd, yn hytrach na gorfod mynd trwy bob ffeil.

# 4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad, y mae gofyn i’r gwasanaeth weithredu yn eu cylch, mae’r rhain yn cael eu manylu yn y ffyrdd canlynol o fewn atodiadau’r adroddiad hwn (lle bônt yn berthnasol):

- Atodiad A: Mae hwn yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon ynghylch diogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Mae hwn yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diogelwch cleifion lle rydym am i'r gwasanaeth lunio cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae’n eu cymryd
- Atodiad C: Mae hwn yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym am i’r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy’n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Datgan yn eglur sut y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn gyraeddadwy, amserol, mesuradwy, penodol, uchelgeisiol a synhwyrol
- Cynnwys digon o fanylion i roi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd y bydd y canfyddiadau a nodwyd yn derbyn sylw digonol
- Sicrhau bod tystiolaeth ofynnol yn erbyn camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw’r canfyddiadau yn systemig ar draws meysydd eraill yn y sefydliad ehangach
- Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

Rhoi’r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal heb eu cymryd a/neu ar y gweill, i gadarnhau pan fydd y rhain wedi cael sylw

# Atodiad A – Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a nodwyd ac a gafodd eu huwchgyfeirio yn ystod yr arolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith yn ystod yr arolygiad.

| Pryderon uniongyrchol a nodwyd | Effaith / effaith bosibl ar ofal a thriniaeth cleifion | Sut y gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder | Sut cafodd y pryder ei ddatrys |
|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw bryderon dybryd yn ystod yr arolygiad hwn | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |
| | | | |

# Atodiad B - Cynllun gwella ar unwaith

## Gwasanaeth: Practis Deintyddol Lakeside

## Dyddiad yr arolygiad: 11 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw bryderon dybryd ynghylch diffyg cydymffurfio mewn perthynas â diogelwch cleifion a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella ar unwaith sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu brys y mae'n eu cymryd.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Ni nodwyd unrhyw faterion ynghylch sicrwydd ar unwaith yn ystod yr arolygiad hwn | | | | |
| | | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth:**

**Enw (llythrennau bras):**

**Swydd:**

**Dyddiad:**

# Atodiad C – Cynllun gwella

**Gwasanaeth:** Practis Deintyddol Lakeside

**Dyddiad yr arolygiad:** 11 Gorffennaf 2022

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad lle rydym yn mynnu bod y gwasanaeth yn cwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau gweithredu y maen nhw'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

| Yr hyn y mae angen ei wella | Safon / Rheoliad | Camau gweithredu gan y gwasanaeth | Swyddog cyfrifol | Amserlen |
|---|---|---|---|---|
| Dylid diweddaru'r polisi cwynion i gynnwys manylion y gwasanaethau cymorth ac eiriolaeth y gellid cysylltu â nhw os na ellir dod i gytundeb. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys manylion cyswllt (cyfeiriad a rhif ffôn) AGIC. | Rheoliad 21(4)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 6.3 Gwrando a dysgu o adborth | Mae'r polisi a'r llythyr ymateb wedi'u diweddaru i gynnwys manylion cyswllt Ombwdsmon y Gwasanaeth Cwynion Deintyddol ac AGIC os na fodlonir cytundeb. Cynghorir y staff i ddarllen y polisi ddiweddaredig a'i lofnodi i gadarnhau. | Lisa Furly | Wedi'i wneud eisoes |
| Mae angen cofnodi profion larymau tân, ymarferion tân a goleuadau a ddefnyddir mewn argyfwng yn unol â pholisi diogelwch tân y practis. | Rheoliad 22(4)(a)(d) o Reoliadau Deintyddiaeth | Ymarferion tân i'w cofnodi. Cyfrifoldeb y Swyddog Tân fydd sicrhau y glynir wrth y trefniadau hyn. Bydd y Swyddog Tân hefyd | Lisa Furly | O hyn ymlaen |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch | yn rheoli ac yn cofnodi profion goleuadau a larymau yn unol â Pholisi Diogelwch Tân y Practis. | | |
| Mae angen i'r practis roi sicrwydd bod mesurydd perfformiad uwchsonig yn cael ei ddefnyddio a bod yr wybodaeth yn cael ei chofnodi'n llawn. | Rheoliad 13(2)(a) a (6)(b)(ii) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch | Mae cofnod eisoes ar waith i gofnodi profion, ac mae stribedi ffoil ar gael os bydd y mesurydd profi yn methu. Bydd hyfforddiant yn cael ei gofnodi a'i ddiweddaru yn unol â hynny. Pob aelod o staff i lofnodi cofnodion hyfforddiant i gadarnhau eu bod yn deall ac yn derbyn eu cyfrifoldebau unigol yn llawn. | Lisa Furly | Wedi'i wneud eisoes |
| Sicrhau bod y polisi meddygol brys yn cael ei adolygu'n flynyddol | Rheoliad 31(1) o Reoliadau Deintyddiaeth | Polisi i'w adolygu a'i ddiweddaru'n flynyddol a'r staff i lofnodi i gydnabod eu bod yn deall unrhyw newidiadau perthnasol. | Lisa Furly | O hyn ymlaen |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 2.1 Rheoli risg a hybu iechyd a diogelwch | | | |
| Er mwyn sicrhau bod polisïau, gweithdrefnau a phrotocolau RhYÏ(CM) yn cael eu diweddaru a'u rhannu â'r staff fel y gallant eu darllen a'u llofnodi i gadarnhau eu bod yn deall eu rôl a'u cyfrifoldeb | Rheoliad 13(8) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 2.9 Dyfeisiau, offer a systemau diagnostig meddygol | Bydd y Goruchwyliwr Diogelu rhag Ymbelydredd yn goruchwylio ac yn gyfrifol am gofnodion a fydd yn cofnodi ac yn cadarnhau bod y staff yn deall eu rolau a'u cyfrifoldebau yn llawn. | Catrin Parry Jones | O hyn ymlaen |
| Cwblhau archwiliad cadw cofnodion | Rheoliad 16 (1)(a)(b) o Reoliadau Deintyddiaeth | Byddwn yn cwblhau archwiliad cadw cofnodion o fewn tri mis.<br><br>Cynhelir archwiliad cadw cofnodion hyfforddwr / hyfforddai yn flynyddol. | Catrin Parry Jones | I'w ymgorffori ym mhrotocolau'r practis o fewn y tri mis nesaf. |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 3.3 Gwella ansawdd, ymchwil ac arloesi | | | |
| Sicrhau bod system ar waith sy'n dangos bod y staff wedi darllen polisïau a gweithdrefnau'r practis fel eu bod yn deall eu rôl a'u cyfrifoldebau | Rheoliad 16(1)(a) o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017<br><br>Safonau Iechyd a Gofal - 7.1 Y gweithlu | Rheolwr y practis i weithredu system rannu polisi ddigidol newydd. Bydd meddalwedd yn sicrhau bod polisïau'n cael eu rhannu'n ddiogel a bydd yn ofynnol i bob aelod o staff gydnabod derbyn unrhyw bolisïau darllen a diweddariadau dros e-bost. | Lisa Furly | System rannu newydd i'w datblygu dros y tri mis nesaf, gyda'r nod o gwblhau'r gwaith hwn a chyflwyno'r system cyn Nadolig 2022. |
| Yn unol â'r polisi recriwtio, sicrhau y ceir dau eirda ar gyfer dechreuwyr newydd | Atodlen 3 Rhan 1 Rheoliad 3 o Reoliadau Deintyddiaeth Breifat (Cymru) 2017 | Bydd rheolwr y practis yn sicrhau bod pob darpar weithiwr yn darparu dau eirda, a gofynnir am hyn yn y cyfweliad. | Lisa Furly | O hyn ymlaen |

| | | | | |
|---|---|---|---|---|
| | Safonau Iechyd a Gofal – 7.1 Y gweithlu | | | |

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

**Cynrychiolydd y gwasanaeth**

**Enw (llythrennau bras): Patricia Satchell**

**Swydd: Rheolwr Cofrestredig**

**Dyddiad: 24 Awst 2022**